Taliadau a threuliau ymddiriedolwyr

Gall taliadau a threuliau ymddiriedolwyr fod yn bwnc dryslyd ond yn un y mae ymddiriedolwyr yn amlwg am gael yn gywir. Mae'r erthygl hon yn bwrw golwg byr ar y pwnc. Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, gweler canllaw y Comisiwn CC11: Treuliau a thaliadau ymddiriedolwyr

Treuliau

Gall ymddiriedolwyr elusen hawlio treuliau ac nid oes rhaid i hwn gael ei awdurdodi yn nogfen lywodraethol yr elusen neu gan y Comisiwn. Fodd bynnag, argymhellir bob amser bod polisi treuliau ysgrifenedig gan elusennau y mae pob un o'r ymddiriedolwyr yn ei ddeall.

Taliadau ymddiriedolwyr

Er mwyn talu ymddiriedolwr, mae'n rhaid cael awdurdod. Gall yr awdurdod hwn gael ei nodi yn nogfen lywodraethol yr elusen, gall fod yn bŵer statudol neu gall y Comisiwn Elusennau ei roi.

Felly, y cam cyntaf yw ystyried pa fath o daliad gaiff ei wneud.

- Ydy'r elusen yn talu ymddiriedolwr am wasanaeth neu a fydd yr elusen yn cyflogi ymddiriedolwr?

Y cam nesaf yw edrych ar ddogfen lywodraethol yr elusen.

- Beth mae'r ddogfen yn ei ddweud am dalu ymddiriedolwyr?

Talu ymddiriedolwyr am nwyddau a gwasanaethau

Efallai na fydd dogfen lywodraethol yr elusen yn cynnwys unrhyw gymalau ar daliadau ymddiriedolwyr neu efallai ei bod yn datgan bod modd rhoi taliadau gyda chydsyniad y Comisiwn. Yna gallwch chi ddibynnu ar y pŵer statudol i dalu ymddiriedolwyr am nwyddau a gwasanaethau. Nid oes angen cael cydsyniad y Comisiwn i wneud y taliad hwn ond mae'n rhaid bodloni rhai amodau (wedi'u rhestru yn y canllawiau uchod).

Os yw dogfen lywodraethol yr elusen yn datgan na all unrhyw daliadau gael eu gwneud i'r ymddiriedolwyr, ni allwch ddibynnu ar y pŵer hwn i dalu ymddiriedolwyr am nwyddau a gwasanaethau. Efallai y gallwch chi newid eich dogfen lywodraethol ac mae canllawiau ar wefan y Comisiwn ar y mater hwn.

Cyflogi ymddiriedolwr

Os yw dogfen lywodraethol yr elusen yn datgan bod modd i'r elusen gyflogi ymddiriedolwr, nid oes angen cael cydsyniad y Comisiwn ar gyfer y gyflogaeth hon.

Fodd bynnag, gall y ddogfen lywodraethol ddatgan bod angen cael cydsyniad y Comisiwn a bydd rhaid i chi wneud cais am hwn drwy ffurflen ar-lein (rhagor o wybodaeth isod).

Weithiau bydd y ddogfen lywodraethol yn datgan nad oes modd talu ymddiriedolwyr elusen. Unwaith eto, efallai y gallwch chi newid eich dogfen lywodraethol ac mae canllawiau ar wefan y Comisiwn ar y mater hwn.

Ffurflen ar-lein ar gyfer taliadau a threuliau ymddiriedolwyr

Mae ffurflen ryngweithiol ar-lein newydd gan y Comisiwn ar gyfer pob math o daliadau ymddiriedolwyr. Mae'r ffurflen hon yn eich tywys drwy nifer o gwestiynau i chi gael gwybod a allwch dalu ymddiriedolwr. Ar y diwedd, cewch wybod a oes angen cydsyniad y Comisiwn i roi'r taliad a gofynnir i chi anfon y ffurflen. Fodd bynnag, os nad oes angen cydsyniad y Comisiwn fe gewch dystysgrif i'w hargraffu a fydd yn rhoi sicrwydd i'r elusen bod y taliad yn gyfreithlon. Mae dolen i'r ffurflen i'w gweld isod.

http://www.charitycommission.gov.uk/welsh/Manage_your_charity/making_payments.aspx

Gweithredu er lles gorau'r elusen

Pan fydd elusennau'n talu ymddiriedolwyr mae'n rhaid iddyn nhw ystyried a yw'r taliad er lles gorau'r elusen. Mae'n bwysig i reoli, a chael eich gweld eich bod yn rheoli'r gwrthdaro buddiannau sy'n codi drwy fod yn agored ac yn atebol i'r rhai sydd â budd yn yr elusen. Gweler hefyd canllaw'r Comisiwn ar wrthdaro buddiannau.